urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Croeso i'r arddangosfa heddiw a diolch am ddod.

Yr hyn a gewch chi yma heddiw yw gwybodaeth am ein cynlluniau cynnar i ddatblygu 7 Porth Copr, adeilad defnydd cymysg newydd sy'n ffurfio rhan o uwchgynllun Porth Copr.

Urban Splash sydd wedi datblygu'r cynigion cynnar hyn, yn rhan o bartneriaeth adfywio strategol dros ugain mlynedd gyda Chyngor Abertawe. Mae'n gam arall yn y gwaith parhaus i drawsnewid canol y ddinas a thu hwnt iddi.

Bydd yr arddangosfa heddiw yn egluro mwy am:

Y tîm tu ôl i waith dylunio a chyflawni'r adeilad, gan gynnwys y bartneriaeth rhwng Cyngor Abertawe ac Urban Splash

Sut mae'r adeilad yn rhan o uwchgynllun Porth Copr a gwaith adfywio ehangach y ddinas

Manylion y dyluniad a'r adeilad ei hun.

Gobeithio y byddwch chi'n hoffi'r hyn a welwch ac edrychwn ymlaen at glywed eich barn ar y cynlluniau.



urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Dinas ar y Traeth

Dinas ar y Traeth yw gweledigaeth ar y cyd Urban Splash a Chyngor Abertawe. Gweledigaeth sy'n dathlu cyfuniad unigryw'r ddinas o fywyd trefol a harddwch naturiol.

Yn ogystal â'r traeth, mae tirweddau o arwyddocâd cenedlaethol yn amgylchynu'r ddinas - Penrhyn Gŵyr, Bannau Brycheiniog, Cwm Tawe a Sir Benfro ymhellach draw. Wrth galon hyn i gyd mae dinas fywiog, gryno, hygyrch i gerddwyr sy'n canolbwyntio ar iechyd, llesiant a chynaliadwyedd.

Nid pob dinas sydd â thraeth, ac mae gan Abertawe draeth mwy na Brighton a Barcelona gyda'i gilydd. Wrth gwrs, mae'n braf ei gael, ond mae'n llawer mwy na hynny. Mae'n nodwedd unigryw nad oes gan y mwyafrif o ddinasoedd, dim ond llond llaw yn Ewrop ac ambell un yn y DU. Yn y frwydr i gadw'r bobl orau, denu'r swyddi gorau a darparu'r ansawdd bywyd gorau, mae Abertawe bum milltir ar y blaen, oherwydd, os gallwch chi fyw yn unrhyw le, beth well na dinas ar y traeth.

Gallwch ddarllen mwy am Y Ddinas ar y Traeth, ein gweledigaeth ar gyfer Abertawe, yma.




urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Porth Copr masterplan -
Mewn busnes eto

Mae Porth Copr yn fwy nag ardal fusnes ganolog yn ninas Abertawe. Dyma galon trawsnewidiad Abertawe – lle mae busnes, arloesi, dysgu a diwylliant yn dod ynghyd i greu marchnad ar gyfer cyfnewid a syniadau. Ar safle giatiau canoloesol y ddinas, mae'n borth i ddinas y dyfodol: cymdogaeth fywiog o ddefnydd cymysg, sydd wedi'i gwreiddio ym mywyd pob dydd y ddinas.

Cyfres o saith adeilad arbennig a chynaliadwy fydd Porth Copr, wedi'u dylunio gan benseiri blaenllaw yn y DU, gyda swyddfeydd a llefydd gwaith, ynghyd â chartrefi newydd a hamdden a lletygarwch ar y llawr gwaelod. O'u defnyddio fel hyn, bydd cymdogaeth hyblyg yn cael ei chreu – un sy'n barod am y dyfodol – a hynny mewn canol dinas sy'n gadarn ac yn cael ei defnyddio mewn cymysgedd o ffyrdd.



1. Porth Copr
54,500 troedfedd sgwâr sydd dan sylw ar gyfer lle swyddfa Gradd A ym mhrif gyfeiriad busnes Abertawe.

2. Porth Copr
53,800 troedfedd sgwâr ar gyfer swyddfeydd Gradd A wrth y porth i ganol y ddinas.

3. Porth Copr
Adeilad defnydd cymysg 46,200 troedfedd sgwâr ar gyfer lle swyddfa Gradd A yn bennaf, ond gyda'r potensial i fod yn ddefnydd preswyl ac addysg hefyd. Ar y prif lwybr i gerddwyr at yr Arena newydd yn Abertawe.

4. Porth Copr
Adeilad 51,700 troedfedd sgwâr yn bennaf ar gyfer swyddfeydd Gradd A, ond gyda photensial ar gyfer defnydd preswyl, iechyd a bwyd a diod ar y llawr gwaelod yn y rhyngwyneb rhwng y ddinas a Glannau Dinas Abertawe.

5. Porth Copr
Adeilad swyddfa Gradd A 47,700 troedfedd sgwâr, ar fin cychwyn ar y safle yn 2026. Cartref newydd i Gyngor Abertawe, gan gynnwys bwyd a diod ar y llawr gwaelod, sydd dafliad carreg o Fystwyr Abertawe.

6. Porth Copr
Adeilad 51,000 troedfedd sgwâr ar gyfer swyddfeydd Gradd A neu ar gyfer defnydd addysg a dysgu.

7. Porth Copr
Cynllun preswyl gyda 57 o fflatiau un a dwy ystafell wely a 15,500 troedfedd sgwâr o gyfleusterau hamdden a lletygarwch ar y llawr gwaelod.

Yr Anecs, Porth Copr
7,400 troedfedd sgwâr o ofod hyblyg sydd dan sylw ar gyfer defnydd manwerthu a bwyd a diod ar y llawr gwaelod, gyda fflatiau preswyl uwchben – ond gyda'r potensial i'w ddefnyddio mewn ffyrdd eraill.

Y Tîm Cyflawni a Dylunio

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ddatblygu a'i gyflawni gan bartneriaeth rhwng Cyngor Abertawe a'r partner adfywio strategol, Urban Splash.

urbansplash

Mae Urban Splash yn gwmni adfywio ac eiddo sy'n seiliedig ar bwrpas sydd am adael marc cadarnhaol ar y byd trwy ddefnyddio dyluniadau gwych a syniadau trawsnewidiol i roi bywyd newydd i adeiladau a lleoedd nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi digon. Mae gennym 30 mlynedd o brofiad o gyflawni prosiectau adfywio arobryn ledled y wlad, gan gynnwys defnydd cymysg, preswyl a masnachol, adeiladau newydd ac adnewyddiadau.

Mae ein cytundeb partneriaeth 20 mlynedd â Chyngor Dinas Abertawe yn dechrau trwy roi sylw i saith safle strategol. Mae'r gwaith o adfywio pob safle yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth, a gyda'i gilydd bydd y rhain yn creu naratif ehangach sy'n uno Abertawe.

shedkm

Mae gwaith shedkm wedi'i wreiddio mewn adfywio. Mae ei ddull gweithredu trawiadol yn arwain at gynlluniau beiddgar, deniadol sy'n drawsnewidiol yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae shedkm yn arfer dyluniadau sy'n ymatebol yn gymdeithasol. Mae ei waith yn dangos agwedd pobl-yn-gyntaf at greu lleoedd, gan greu cymdogaethau bywiog a chynaliadwyedd cymdeithasol hirdymor.

Mae'n cyflawni arloesedd trwy ffordd o feddwl fasnachol strategol, rhesymeg ddylunio gref a dulliau adeiladu modern a ddefnyddir ar gyfer cyflymder ac effeithlonrwydd. Mae ei agwedd fentrus yn herio rhagdybiaethau am ddylunio er mwyn ychwanegu gwerth i gleientiaid a defnyddwyr.

grant associates

Mae Grant Associates yn ymgynghoriaeth pensaernïaeth tirwedd, sy'n arbenigo mewn dylunio creadigol ar gyfer amgylcheddau trefol a gwledig, fel ei gilydd.

Wedi'i sefydlu ym 1997, mae'r Practis wedi meithrin enw da am ddylunio arloesol, ecolegol a'r gallu i lunio tirweddau defnyddiol a chynaliadwy ac iddynt gymeriad cyfoes trawiadol.

Caiff ei ysbrydoli gan bosibiliadau creadigol tirweddau cynaliadwy a'i ysgogi gan yr awydd i gysylltu pobl a natur.

Cefnogir gan

CAMBRIA EXPEDITE Apex TRANSPORT PLANNING

urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Cyflwyniad i 7 Porth Copr

Bydd ein cynigion ar gyfer 7 Porth Copr yn trawsffurfio hen safle Canolfan Dewi Sant i fod yn adeilad defnydd cymysg newydd yng nghalon Abertawe. Bydd y datblygiad newydd yn dod â chartrefi newydd ochr yn ochr â chyfleusterau hamdden a lletygarwch ar lefel llawr gwaelod, ac yn creu lle bywiog drwy gydol y dydd ac yn dod â bywyd newydd i ran hon y ddinas.

Ar y lloriau uchaf, bydd cymysgedd o fflatiau un a dwy ystafell wely â digon o olau, lle a golygfeydd. Bydd caffis, bwytai a llefydd hamdden newydd yn creu lle prysur o flaen yr adeilad, yn ogystal ag iard a llwybrau newydd sy'n cysylltu â'r ardal fwy.

Gyda'i gilydd, bydd y cynigion yn creu lle newydd i fyw, gweithio, cyfarfod a threulio amser, gyda chyfleoedd i drigolion, busnesau ac ymwelwyr fwynhau.







Ôl-osod neu Ail-adeiladu

Ar ôl i'r tîm dylunio a chyflawni wneud asesiadau manwl, cafodd nifer o opsiynau eu hystyried ar gyfer dyfodol Canolfan Dewi Sant el ag y mae hi.

Mae'r hen ganolfan siopa wedi bod yn rhan bwysig o Abertawe, ond nid yw'r adeilad bellach yn ateb anghenion na dyheadau cyfoes a hynny oherwydd bod patrymau siopa wedi newid a bod canol y ddinas wedi'i huwchraddio drwy amryfal gynlluniau adfywio. Buom yn edrych ar gadw ac ail-bwrpasu'r ganolfan, ond mae ei chynllun a'i hôl-troed mawr yn cyfyngu ar ei defnydd yn y dyfodol ac yn atal gwaith i wella cysylltiadau i gerddwyr drwy'r ardal.

Wrth godi adeilad newydd a chyfoes yn lle'r hen ganolfan siopa – a hynny i safon uchel ac wrth gadw at safonau cynaliadwyedd - mae 7 Porth Copr yn darparu cartrefi newydd pwrpasol a gofod llawr gwaelod prysur, ac yn cefnogi'n well y gwaith ehangach o adfywio canol dinas Abertawe.

Drwy godi o'r newydd fel hyn, mae cyfle i greu lle sydd â chysylltiadau gwell sydd yn ymateb i anghenion canol dinas Abertawe, heddiw ac yfory, ac a fydd yn ateb uchelgeisiau trigolion a busnesau Abertawe fel ei gilydd.



urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Cysylltiadau gwell


Mewn canol dinas lwyddiannus, mae'n hawdd symud drwyddi, ac mae llwybrau croesawgar a hwylus yn cysylltu llefydd a chyrchfannau.

Ar hyn o bryd, mae Canolfan Dewi Sant yn cymryd rhan fawr o floc y ddinas, sy'n cyfyngu ar y gallu i symud drwy'r ardal ac ar gysylltiadau rhwng strydoedd cyfagos. Drwy ailddatblygu'r safle, mae hyn yn creu cyfle i gael cynllun mwy agored a chreu llwybrau newydd drwy Borth Copr, gan gysylltu canol y ddinas yn well yn gyffredinol.

Mae'r cynigion yn cryfhau strydoedd allweddol, gan gynnwys Ffordd y Dywysoges, ac yn ail-greu cysylltiadau o amgylch Stryd Rutland a Sgwâr y Santes Fair. Bydd llwybr newydd i gerddwyr o ochr orllewinol Ffordd y Dywysoges yn arwain yn uniongyrchol at galon Porth Copr drwy'r iard newydd - Frog Yard, sy'n ei gwneud hi'n haws i bobl symud o amgylch y ddinas gan ddefnyddio llwybrau diogel a deniadol.

Gyda'i gilydd, bydd y newidiadau hyn yn creu lle sydd wedi'i gysylltu'n well, gan gysylltu strydoedd a chyrchfannau presennol wrth i ganol dinas Abertawe barhau i gael ei hadfywio.

Llwybrau allweddol a chamleoliad trefol



Cael gwared ar adfywio trefol anghyfredol



Ail-ddiffinio patrwm y ddinas ac ystyried llwybrau ehangach




urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Lle i gymuned: Defnyddio'r llawr gwaelod

Mae'r llawr gwaelod yn rhywle i ddod â phobl at ei gilydd. Bydd caffis a bwytai o amgylch ochrau'r adeilad, yn creu lle croesawgar a phrysur yn ystod y dydd.

Bydd iard newydd yn y canol – Frog Yard – lle i gerdded drwyddo, cyfarfod â ffrindiau, cael paned, neu dreulio amser. Yno, bydd lle i wneud gweithgareddau pob dydd a chyfleoedd i gyfarfod a chynnal digwyddiadau, gan roi rheswm i bobl aros am dipyn o amser.

Gyda llwybrau newydd yn cysylltu â'r ardal ehangach, bydd llawer o bosibiliadau o ran sut mae pobl yn defnyddio ac yn mwynhau Porth Copr.



Dyma rai a baratowyd gennym









urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Dyluniadau o'r tu allan a gweddluniau

Cynllun Arfaethedig Gogledd Sgwâr y Santes Fair




Cynllun Arfaethedig Gorllewin Ffordd y Dywysoges



Cynllun Arfaethedig De Frog Yard



Cynllun Arfaethedig Gorllewin Rutland Place



Cartrefi newydd

Yn ein cynnig, mae cymysgedd o fflatiau un a dwy ystafell wely ar y lloriau uchaf. Y penseiri blaenllaw, shedkm, sydd wedi'u dylunio a byddai gan bob cartref ddwy wedd er mwyn cael gymaint o olau naturiol a golygfeydd ar draws y ddinas, gan gynnwys golygfeydd o dirnodau hanesyddol fel Mystwyr Abertawe.

Byddai posib mynd at y cartrefi gan ddefnyddio decin cyffredin wedi'i dirlunio, gyda gwaith plannu yn helpu i greu mynediad mwy preifat a chroesawgar at y drysau ffrynt. Byddai gan bob cartref ei falconi preifat ei hun hefyd, a byddai gan y trigolion ddefnydd o erddi podiwm cyffredin.



Dyma rai a baratowyd gennym



Mansion House,
New Islington, Manchester




Park Hill,
Sheffield




Mansion House,
Port Loop, Birmingham

Cynlluniau llawr

Gosodiad un ystafell arferol



Gosodiad dwy ystafell arferol



Mynediad Dec





Enghreifftiau o Fynediad Dec:



Lakeshore,
Bristol



Moho,
Manchester



Park Hill,
Sheffield

urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

Dywedwch wrthym beth yw eich barn

Diolch am edrych ar ein cynigion.

Rhannwch eich barn â ni

Noder, mae hwn yn ymgynghoriad anffurfiol â'r cyhoedd cyn gwneud cais er mwyn i'r tîm dylunio gasglu adborth ar ein cynlluniau arfaethedig.

Camau nesaf
Mae croeso i chi ofyn unrhyw gwestiynau i'r aelodau tîm sydd yma heddiw. Byddem hefyd yn ddiolchgar pe byddech yn llenwi ffurflen adborth cyn i chi adael.



urbansplash × Cyngor Abertawe Swansea Council

7 Porth Copr







